

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a
dysgu ac addysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar
astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o
ddysgwyr, sy'n seiliedig ar astudiaeth achos critigol
a arsylwyd.

I gyflawni'r aseiniad yma rhaid i mi ddarganfod achos critigol trwy arsylwi gwersi o fewn ysgol ac i'w gwerthuso'n feirniadol trwy gyflwyno strategaethau a fyddwn i yn defnyddio i ymateb gyda'r achos penodol yna. Yn ôl Cohen et al (2013), achos critigol yw digwyddiad sy'n goleuo nodwedd benodol a gallai fod yn bositif neu'n negyddol. Yn wahanol i hyn mae diffiniad McGarr & McCormack (2016) ac Tripp (1993) sy'n dweud bod digwyddiad critigol yn ddigwyddiad sy'n nodweddiadol ond wedi ei gwneud yn gritigol trwy ddadansoddi'r digwyddiad ymhellach.

Ymarfer adfyfyriol yw edrych yn-ôl ar ddigwyddiad a'i gwerthuso'n feirniadol a deall gweithredoedd pobl (Lishman, 2015). Maent yn chwarae rôl enfawr yn datblygu sgiliau ac addysgeg wrth wneud hyn a hefyd dysgu am y disgyblion maent yn ei ddysgu (Mathew et al, 2017). Mae Brookfield (1998) yn defnyddio model pedwar 'lens' er mwyn adfyrfrio sef: edrych trwy ein llygaid ni, llygaid y dysgwyr, llygaid ein cyd-weithwyr a trwy lenyddiaeth ymchwil. Mae hyn cael ei defnyddio gan fod neb yn edrych ar yr un peth yn yr un ffordd a hefyd mae'r model yn gadael i ni edrych ar y digwyddiad o wahanol onglau. Mae achosion critigol yn cael ei defnyddio trwy wneud i'r athro gwerthuso'r hyn sydd wedi digwydd a gofyn cwestiynau fel: pam? Peth da? Maent yn gwneud hyn i helpu gwella dysgu'r athro yn y hir dymor (McGarr & McCormack, 2016; Tripp 1993).

Mae'r aseiniad yma wedi ei strwythuro drwy edrych ar brif elfennau o arsylwi gan nodi'r strategaethau a defnyddiwyd wrth arsylwi a beth yw ein hachos critigol. Hefyd fyddwn yn cysylltu'r achos critigol gyda gwaith ymchwil mewn ardaloedd tebyg yn yr adolygiad llenyddiaeth gan orffen drwy werthuso'r achos critigol a'r camau nesaf byddwn yn cymryd.

Rhan 1: Arsylwi

Er mwyn cyflwyno'r dasg o werthuso'n feirniadol ar achos critigol rydym wedi arsylwi gwersi o fewn Ysgol [REDACTED] sydd yn darparu addysg uwchradd trwy

gyfrwng y Gymraeg i 870 o ddisgyblion rhwng 11 ac 18 oed yn Sir Caerfyrddin (Estyn, 2015). Mae'r disgyblion yn dod o'r dref gyfagos Caerfyrddin a'r ardaloedd gwledig cyfagos ble mae 79% o gartrefu'r disgyblion yn siarad Cymraeg (Estyn, 2015). Yn ôl 'my local school' gan Lywodraeth Cymru (2019), dim ond 4.1% o'r disgyblion sydd yn derbyn pryddau bwyd am ddim o'r ysgol (PYDd). Er hynny mae'r canran hyn wedi cynyddu 0.7% o 2015 ond mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol o 17.4%.

Yn ei adroddiad diweddar gan Estyn (2015), adroddwyd bod y canlyniadau TGAU'r ysgol yn uwch nag ysgolion tebyg a bu'r ysgol yn darparu profiadau allgyrsiol gwych. Mae hyn yn gamp anhygoel gan fod y gyllideb yr ysgol fesul disgybl yn £3,494 sef yr isaf yn Sir Caerfyrddin. Er hyn dwedwyd Estyn (2015) yn ei adroddiad diweddar fod rhai gwersi ddim yn defnyddio strategaethau cwestiynu yn effeithiol i ymestyn dealltwriaeth ei disgyblion. Yn ogystal mae'r tasgau sydd yn cael ei osod ddim yn cael ei chynllunio i ateb pob angen pob disgybl yn y dosbarth yn enwedig disgyblion mwy abl a talentog (MAT). Ar nod arall, mae 14.7% o'r disgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac 1.6% gyda datganiad o hyn. Mae hyn yn is na'r lefelau cenedlaethol.

Methodoleg arsylwi

Nod arsylwi yw sylwi ar ymddygiad, digwyddiadau, arfer a mwy gyda'r nod o gasglu data (Cohen et al, 2013; Hobart & Frankel, 2004). Mae gan bob aelod o staff a chyrff allanol cyfrifoldeb i arsylwi ar ddisgyblion a nodi eu sgiliau a datblygiadau, perthynas rhwng eu cyfoedion, perthynas efo'r staff a'r rhyngweithiad gyda'r amgylchedd. I arsylwi mae rhaid mabwysiadu technegau arsylwi megis ysgrifennu nodiadau, arsylwi 'plentyn targed', gwneud sosiogramau, cymryd lluniau neu siartiau tic. Yn debyg mae rhaid penderfynu ar pa fodelau i ddefnyddio megis arsylwi'n di-gyfranogwr ac arsylwi fel cyfranogwr, defnyddio dulliau ymchwilio strwythuredig neu anstrwythuredig, gwneud ymchwil ansoddol neu feintiol, edrych ar astudiaeth achos neu ddefnyddio model Gagne's (Hobart & Frankel, 2004).

Defnyddiais strategaeth arsylwi'n di-gyfranogwr sy'n golygu bod y sylwedydd ddim yn cyfrannu i'r wers ond yn arsylwi'n oddefol ac edrych i mewn i bethau mewn dyfnder (Cyngor West Sussex, 2019; Kumar, 2014; Wragg, 1999). Defnyddiais dros arsylwi'n cyfranogwr oherwydd mae'r sylwedydd dim yn ymharu a'r wers ac mae modd cofnodi llawer (Cyngor West Sussex, 2019) ond yn colli digwyddiadau sy'n digwydd pan maent yn cofnodi (Kumar, 2014). Yn ogystal does dim yna gogwydd oherwydd mae'n duedd fod yr arsylwr dim yn dod o'r ysgol ac felly dim yng nghlwm yn emosiynol (Wragg, 1999). Er hyn mae effaith Hawthorne yn gallu digwydd yn y ddwy strategaeth arsylwi ble mae disgyblion ac athrawon yn newid ei ymddygiad gan wybod ei fod yn cael ei arsylwi ac yn annilysu'r ymchwil (Kumar,

2014; Wragg, 1999). I oresgyn hyn rhaid arsylwi'r gwersi am nifer o amseroedd er mwyn creu darlun mwy cyflawn ond yn ein hachos ni na allwn wneud hyn.

Cyn arsylwi rhaid penderfynu ar strategaeth ymchwil. Mae Cohen et al (2013) yn dweud fod yna dwy fath o strategaeth ymchwil sef strwythuredig ac anstrwythuredig. Ymchwil strwythuredig yw cynllunio cwestiwn/ffocws ymchwil er mwyn edrych am nodweddion penodol cyn arsylwi (Cohen et al, 2013). Ymchwil anstrwythuredig yw ymchwil ble nad yw cwestiwn ymchwil wedi ei osod o flaen llaw. Dwedwyd Cohen et al (2013) bod modd creu rhagdybiaeth wrth arsylwi pob peth sy'n digwydd yn lle edrych am un peth penodol. Yn ein harsylwad ni mae gennym daflen strwythuredig ond does dim yna ddigwyddiad penodol mae rhaid i ni edrych am felly defnyddiwyd strategaeth anstrwythuredig.

Yn yr un ffordd gallwn hefyd arsylwi trwy ddefnyddio astudiaethau achos neu achosion critigol. Mae astudiaeth achos yn gallu cael ei defnyddio fel model ble mae un peth penodol yn cael ei arsylwi ac yw gwreiddiau ymchwil dwfn (Arthur et al, 2012; Kumar, 2014). Gallai fod yn ysgol, digwyddiad, disgybl neu athrawon (Arthur et al, 2012). Dwedai Arthur et al (2012) bod mantais astudiaeth achos yw'r gallu i gyflwyno gwaith dwfn a manwl ac yn cael pwyslais go iawn. Er hyn gallai fod yn rhagfarnllyd ac yn galed i ddiffinio beth yw 'achos'. Achos critigol yw digwyddiad sy'n nodweddiadol ond wedi ei gwneud yn gritigol trwy ddadansoddi'r digwyddiad ymhellach (Tripp, 1993). Mae'n debyg i astudiaeth achos oherwydd mae'n astudiaeth o un peth penodol fel digwyddiad mewn dyfnder. Yn ogystal mae'n debyg i astudiaeth achos oherwydd mae pwyslais go iawn arni ac ni sydd yn gwneud yn gritigol. Un anfantais o achosion critigol yw gallai fod yn rhagfarnllyd wrth werthuso.

Yr achos critigol

Fel rhan o'n haseiniad roedd rhaid arsylwi gwersi er mwyn darganfod digwyddiadau a gallwn ddadansoddi fel achosion critigol. Roedd yna bedwar arsylwad gwers wedi ei chofnodi (Atodiad A-D) ac yna pedwar defnydd o'r model beirniad wedi adfyfrio (Atodiad A-D) i ddadansoddi'r achosion critigol. Mae'r aseiniad yma wedi ffocysu ar un ohonynt (Atodiad A). Er mwyn parchu polisiau moesegol yr ysgol byddwn yn cadw enw pob aelod o staff a disgyblion yn anhysbys (BERA, 2018). Cyfeiriwyd at ddisgyblion ac athrawon gan ddefnyddio llythrennau i gadw'n anhysbys fel 'disgybl A,B,C' ac 'Athrawes A,B,C'.

Mae'r achos critigol arsylwais yn gysylltiedig â chwestiynu ac ymddygiad (Atodiad A) yn wers Daearyddiaeth i flwyddyn 8 o allu cymysg. Nodwyd Athrawes A bod nod y wers yw cyflawni a deall mapiau erbyn gwaith maes i'r Afon Ogwr. Gosodwyd tasgau i ddefnyddio mapiau atlas i ddarganfod lleoliad yr Afon Ogwr ac ystyr prif nodweddion yr afon. Hefyd roedd rhaid defnyddio cyfeirnodau grid i ddangos ardaloedd y prif nodweddion yma.

I asesu dealltwriaeth y disgyblion roedd Athrawes A yn cwestiynu'r dosbarth mewn dau fodd gwahanol sef cwestiynu unigolion a chwestiynu'r dosbarth i gyd. Arsylwais fod grŵp bach o ddisgyblion sef disgybl A,B ac C yn rhoi ei dwylo i fynnu i ateb pob cwestiwn roedd Athrawes A yn anelu at y dosbarth. Ond pan fydd athrawes A yn cwestiynu disgybl arall roedd disgyblion A,B ac C yn torri ar draws i ateb y cwestiwn os bu'r unigolyn methu ateb o fewn ychydig eiliadau. I geisio newid hyn roedd Athrawes A wedi gofyn i'r disgyblion i aros am ei chyfle a gwnaeth Athrawes A newid strategaeth cwestiynu i ddefnyddio system cwestiynu ar hap (lolipop) a oedd yn rhwystro'r disgyblion rhag rhoi ei dwylo i fynnu. Roedd y strategaeth hon wedi gweithio ond roedd disgybl A ac B yn rhwystredig pan fydd disgybl arall yn cael ei dewis ar hap i ateb y cwestiwn gan ddweud i Athrawes A bod yn annheg. Erbyn diwedd y wers roedd disgybl A ac B yn torri ar draws i ateb y cwestiynau ac roedd disgybl D wedi colli ffocws ar y wers a cholli hyder wrth ateb cwestiynau gan fod disgybl A ac B yn ateb yn lle.

Mae'r pedwar diben (Donaldson, 2015) yn ceisio creu dysgwyr sy'n fentrus a gallu chwarae rôl mewn tîm. Mae'r achos critigol yma'n dangos bod y diben yma'n mynd i fod o fudd i ddisgybl A,B ac C er mwyn iddynt allu parchu barn a chyfleoedd disgyblion a chydweithwyr yn y dyfodol. Mae hyn yn cytuno gyda chenhadaeth addysg Cymru (2017) gan fod yna disgwyliad i athrawon darparu amgylchfeydd sy'n hybu dysgu a chwrdd gyda phob angen disgyblion. Hefyd mae'r diben yma'n cydweithio gyda'r diben arall sef i greu unigolion iachus a hyderus a fydd yn cael ei datblygu os bu pawb yn cael y cyfle i ymateb i gwestiynau a gwella. Felly mae'r achos critigol yma'n dangos y pwysigrwydd mae'r pedwar diben yn cael i ddatblygu dyfodol gwell i'n disgyblion ac i Gymru.

Rhan 2: Adolygiad llenyddiaeth

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yma wedi ei strwythuro i roi cyd-destun i'r achos critigol ac mae pob adran yn yr adolygiad wedi ei thrafod mewn pwrpas i wneud hyn. Byddwn yn trafod tair elfen sef: Cwestiynu ar hap (dull lolipop) a chynhwysedd, disgyblion MAT gan ffocysu a'r gynhwysedd a gwahaniaethu a hefyd amgylchedd dosbarth gan ffocysu ar reoli ymddygiad.

Un ffurf o asesu ar gyfer dysgu mewn fformat ffurfiannol yw cwestiynu. Rydym yn cwestiynu oherwydd mae'n hanfodol i'r broses dysgu ac yn prif elfen o herio disgyblion (Kerry, 2002; Myrick & Yonge, 2002; Way, 2008). Yn ogystal mae'n asesu dealltwriaeth, adeiladu fframwaith i ddysgu, sbarduno diddordeb a datrys problemau (Kerry, 2002; Shaunessy, 2000). Mae yna nifer o wahanol ddulliau er mwyn cwestiynu er enghraifft defnyddiwyd Athrawes A cwestiynau wedi eu hanelu at unigolion penodol, y dosbarth cyfan a chwestiynu ar hap. Yn ein hachos critigol roedd Athrawes A wedi newid y dull cwestiynu i

ffurf ar hap er mwyn atal diffyg disgyblaeth disgybl A,B a C. Mae Bond (2007) yn cytuno gyda'r cam hyn gan ddweud bod rhaid defnyddio amryw o strategaethau cwestiynu i atal diffyg disgyblaeth. Mae'n dadlau bod y dull yn hybu cwestiynu'r holl ddosbarth o leiaf unwaith ar hap sydd yn cadw disgyblion ar ei thraed ac yn gynhwysol (Bond, 2007; Caram & Davis, 2005; Ellis, 1993; Kerry, 2002; Williams, 2006). Ond mae Williams (2006) yn dadlau bod y dechneg o gwestiynu ar hap efallai ddim yn gweithio mor dda gyda disgyblion henach. Mewn gwrthgyferbyniad mae Bond (2007) yn dadlau bod disgyblion yn fwy tebygol o ateb yn gywir er mwyn osgoi embaras o flaen ei chyfoedion ond dydy'r dull yn helpu pob disgybl fel disgyblion MAT. Felly ydy'r dull ar hap yn wir hybu cynhwysedd wrth feddwl am anghenion pob disgybl (Way, 2008)?

Mae cwestiynu yn hanfodol i gynyddu'r dysgu mewn dosbarth (Myrick & Yonge, 2002; Way, 2008). Yn ogystal mae'r lefel o gwestiynu yn cael effaith mawr ar faint sy'n cael ei dysgu (Myrick & Yonge, 2002). Creuwyd Bloom (1956) system dosbarthiad cwestiynau i 6 ardal meddwl (ffigwr 1) a gallai cael ei rhannu mewn i ddau rhan sef sgiliau meddwl uwch a sgiliau meddwl is (Myrick & Yonge, 2002). Y 6 ardal yw: gwybodaeth, deall, cymhwyso, dadansoddi, synthesis a gwerthuso sef y lefel o feddwl uchaf (Bloom, 1956; Way, 2008). Mae'r ardaloedd gwybodaeth a deall yn ardaloedd sgiliau meddwl is oherwydd mae'r ateb wedi fformiwleiddio ar gofio yn unig (Myrick & Yonge, 2002). Mae'r ardaloedd eraill yn hybu sgiliau meddwl uwch a rhaid defnyddio mwy nag cofio yn unig (Myrick and Yonge, 2002).




Figure 1. Comparison of learning-time spent on levels of thinking.

Ffigwr 1. Gan Way (2008), sy'n dangos y 6 prif elfen i gwestiynu gyda hierarchaeth glir. Hefyd mae'n dangos yr angen o fwy o gwestiynau o ansawdd uwch ar ddisgyblion MAT.

Mae Muijs & Reynolds (2011) yn diffinio'r disgyblion MAT fel rhai sydd yn sgorio llawer mwy na'r cyfartalog am ei oedran sy'n golygu eu bod yn fwy abl dros y ciriclw (Estyn, 2018). Mae'r disgyblion yma yn dueddol o fod o flaen pawb yn y dosbarth a gydag anghenion eu

hun er mwyn iddynt barhau i ddysgu. Un o'r anghenion yma yw'r proses o gael ei herio trwy gwestiynu. Mae Bond (2007) yn dweud bod rhaid i'r cwestiwn fod yn addas i'r disgyblion yma trwy fod yn fwy heriol a hybu unigolrwydd a datrys problemau (Caram & Davis, 2008; Estyn, 2018). Mae Muijs & Reynolds (2011) yn cytuno a hyn gan nodi bod disgyblion MAT sydd ddim yn cael ei herio yn cael ei diflasu ac yn dangos ymddygiad gwael sydd yn cael ei ddangos yn ein hachos critigol. Mae yna ddisgwyliad ar athrawon i wneud cwestiynau sydd yn addas i'r disgyblion ac wrth newid y dull cwestiynu i ddull ar hap mae'r tebygolrwydd o gael cwestiwn sydd yn addas at y disgyblion MAT yn lleihau a hefyd mae'r gwahaniaethu o ddisgyblion yn cael ei cholli. Mae hyn yn golygu bod disgyblion MAT cael cwestiynau sydd o ansawdd llai ac felly yn gallu dangos nodweddion o ddiflasu'n hawdd oherwydd yr hawddgarwch y cwestiynau iddyn nhw (Muijs & Reynolds, 2011).

I wahaniaethu rhwng disgyblion MAT a disgyblion eraill mae rhaid cael cwestiynau o wahanol ansawdd (Estyn, 2018). Mae Tacsonomeg Bloom (ffigwr 1) yn cyflwyno 6 gwahanol lefel o gwestiwn sef: Gwybodaeth, Deall, Cymhwyso, Dadansoddi, Synthesis a Gwerthuso. Mae ffigwr 1 yn dangos bod cwestiynau gwerthuso a dadansoddi o ansawdd uchel o fydd i ddisgyblion MAT gan fod rhaid defnyddio ei meddwl a dychymyg (Estyn, 2018; Shaunessy, 2000; Way, 2008). Mae Myrick & Yonge (2008) yn dadlau bod pob disgybl yn gallu ateb pob lefel o gwestiwn ac ni ddylai anelu pob cwestiwn sydd angen sgiliau meddwl uwch at ddisgyblion MAT. Anghytunwyd Ellis (1993) ac Way (2008) wrth ddweud bod rhaid i ddisgyblion MAT cael mwy o gwestiynau sy'n cynnwys mwy meddwl o lefel uwch i atal diflasrwydd. Mae ymchwil yn dangos bod athrawon yn anelu at ofyn cwestiynau o wybodaeth yn fwy ac felly dim yn addas at y disgyblion MAT (Shaunessy, 2000). Mae'n ymddangos bod y data yn cefnogi hyn o ymchwil Dains (1986) sy'n dangos bod 93% o gwestiynau a ofnwyd gan athrawon o lefel meddwl is ac yn ffocysu ar gofio ffeithiau. Mae ymchwil Vygosky (1978) yn dangos bod rhaid i berson mwy gwybodus arwain y dysgu a herio disgyblion er mwyn symud ymlaen. Mae'r theori yma dim ond yn cael ei gweithredu pan fu'r cwestiynau yn addas i'r disgybl penodol. Cytunwyd Way (2008) ac Ellis (1993) sy'n dweud bod disgyblion methu symud ymlaen heb ymestyn meddwl ymhellach ac yn dinistrio dysgu disgyblion.

Cyn cyflwyno cwestiynau o ansawdd fwy uchel mae rhaid i'r amgylchedd yn y dosbarth fod yn addas at ddysgu (Ellis, 1993; Shaunessy, 2000). Dwedwyd Strasser (1967) bod yr amgylchedd dosbarth yn dibynnu llawer ar ymddygiad yr athro/athrawes ar adeg cwestiynu. Mae hyn yn cael ei chryfhau gan Bond (2007) ac Shaunessy (2000) sy'n dweud bod rhaid sicrhau bod y dosbarth yn barchus tuag at ei gilydd. Ychwanegwyd Kerry (2002) bod rhaid i'r disgyblion dysgu hyn o oedran ifanc a chyfrifoldeb pob athro/athrawes yw gwneud hyn. Gallwn wneud hyn drwy osod rheolau a disgwyliadau meddai Bond (2007) ac Shaunessy (2000). Rheolau fel dim ateb nes bod pawb wedi cael amser i feddwl a gofyn

cwestiynau sy'n mynd tu hwnt i gwestiynau cofio (Shaunessy, 2000). Yn ogystal mae rhaid i'r dosbarth fod yn ardal ble mae pob ateb yn cael ei camol hyd yn oed os yw'n anghywir a oedd ddim wedi digwydd yn ein hachos critigol (Ellis, 1993; Kerry, 2002).

Un mater o ddiffyg disgyblaeth arall yw siarad allan pan mae cwestiwn wedi cael ei gofyn i ddisgybl arall (Kyriacou, 2007). Un rheswm am hyn yw'r golled o ddiddordeb neu'r hawddgarwch maent yn gweld yn y gwaith yn enwedig disgyblion MAT (Kyriacou, 2007). Mae Bond (2007) yn credu dylai athrawon gofyn cwestiynau i bob disgybl er mwyn cadw nhw ar eu traed. Ond mae Muijs & Reynolds (2011) yn anghytuno a hyn gan nodi bod disgyblion MAT sydd ddim yn cael ei herio yn cael ei diflasu ac yn dangos ymddygiad gwael sydd yn cael ei ddangos yn ein hachos critigol. Mae hyn yn cael ei gwneud trwy ofyn cwestiynau addas o ansawdd uchel i'r disgyblion MAT (Ellis, 1993; Way, 2008). Felly ydy'r dull ar hap yn wir hybu cynhwysedd wrth feddwl am anghenion pob disgybl ac ydy'r dull yn atal diffyg disgyblaeth (Way, 2008)?

Rheswm arall yw grwpiau penodol yn dilyn esiampol rhywun yn y grŵp yna a hefyd agwedd gwael tuag at ysgol. Mae diffyg disgyblaeth yn cael effaith mawr ar wersi yn enwedig ar ddisgyblion eraill.

I gasglu, mae cwestiynu yn hanfodol i'r broses dysgu ac yn herio disgyblion o bob gallu (Kerry, 2002; Myrick & Yonge, 2002; Way, 2008). Mae cwestiynu ar hap yn hybu cynhwysedd (Bond, 2007; Caram & Davis, 2005; Ellis, 1993; Kerry, 2002; Williams, 2006) ond mae'r tebygolrwydd bod bob disgybl yn cael ei herio yn lleihau gan y golled o ddewis pa gwestiwn sydd yn addas i pa ddisgybl. Mae cwestiynau ar dop y hierarchaidd dacsonomeg Bloom (1956) yn addas at ddisgyblion MAT ond mae dulliau ar hap yn lleihau'r tebygolrwydd ei fod yn cael ei ateb ac yn dilyn at ddiflasrwydd a diffyg disgyblaeth gan y disgyblion yma (Ellis, 1993; Shaunessy, 2000; Way, 2008). Felly ydy'r dull yma'n addas iddyn nhw? Rhai strategaethau rheoli dosbarth a defnyddiwyd yw gosod rheolau (Bond, 2007). Mae Bond (2007) yn ychwanegu bod rhaid pob disgybl parchu cyfleoedd pawb i ymateb ar lafar sy'n cael ei dysgu o oedran ifanc.

Rhan 3: Adfyfrio a chamau nesaf

I atgoffa, roedd fy achos critigol (atodiad A) yn gysylltiedig a chwestiynu a diffyg disgyblaeth yn wers Daearyddiaeth i flwyddyn 8. Roedd Athrawes A wedi newid y dull cwestiynu i ddull cwestiynu ar hap (lolipop) er mwyn atal diffyg disgyblaeth disgybl A,B ac C. Cyn gwneud hyn roedd Athrawes A yn defnyddio dull cwestiynu'r holl ddosbarth ac unigolion penodol er mwyn gwahaniaethu. O ganlyniad roedd cwestiynau o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â gwaith Bloom (1956) yn cael ei anelu at ddisgyblion MAT er mwyn cyrraedd ei anghenion nhw (Bond, 2007) a gwahaniaethu rhwng disgyblion. Gan newid i ddull ar hap o

gwestiynu mae Athrawes A wedi colli'r siawns i wahaniaethu rhwng disgyblion (Bond, 2007; Caram & Davis, 2008; Estyn, 2018) oherwydd mae'r cwestiynau yn cael ei gofyn ar hap felly mae yna llai tebygolrwydd bod disgyblion MAT yn cael ei gofyn cwestiynau sy'n addas iddyn nhw. Am y rheswm yma mae'n awgrymu bod disgybl A,B ac C wedi diflasu (Muijs & Reynolds, 2011) ac yn troi at ddiffyg disgyblaeth gan gwaethu'r atebion allan cyn rhoi cyfle i ddisgyblion eraill ymateb. Felly mae'n debyg bod y dull cwestiynu ar hap yn gynhwysol i bawb yn y dosbarth (Bond, 2007; Caram & Davis, 2005; Ellis, 1993; Kerry, 2002; Williams, 2006) ond yn rhwystro disgyblion MAT wrth gael ei herio (Way, 2008).

Os byddwn i yn cael byw yn esgidiau'r athrawes rwy'n credu ei fod yn fwyaf pwysig i gadw at gwestiynu unigolion penodol fel disgyblion MAT er mwyn cwrdd â'i disgwyliadau ond byddwn hefyd yn newid ble ydw i'n sefyll er mwyn ceisio cael gweld pawb. Rheswm hyn yw cadw pob disgybl ar ei thraed a gallwn ofyn cwestiynau ar hap i ddisgyblion eraill a chwestiynau ansawdd uchel i'r disgyblion MAT penodol er mwyn gwahaniaethu. Os byddwn yn cadw at gwestiynu ar hap yn unig fyddwn yn colli'r siawns i wahaniaethu. Dewisais hyn fel y cam nesaf dros gwestiynu grwpiau a chael nhw i drafod oherwydd gallai'r disgyblion MAT cymryd dros y drafodaeth grŵp a rhwystro syniadau eraill. Mae'r cam hyn yn cloi'r bwch rhwng adroddiad Estyn (2015) a gofynion disgyblion ble mae'r strategaeth cwestiynu hyn nawr yn ymestyn dealltwriaeth ac yn addas at ddisgyblion MAT. Felly rwy'n cytuno a'r symudiad i ddull cwestiynu ar hap er mwyn hybu cynhwysedd ond mae rhaid i'r disgyblion MAT cael ei herio.

Er mwyn rheoli disgyblaeth byddwn yn rhoi stŵr neu rybudd (dibynnu ar bolisi ymddygiad yr ysgol) i'r disgyblion sydd yn torri ar draws fel disgybl A ac B. Rhaid gwneud hyn er mwyn cadw rheolaeth y dosbarth a'r syniad o drefn. Cam arall byddwn i yn cymryd i ymateb i'r broblem fydd i osod rheolau pendant cyn dechrau dysgu. Mae hyn yn helpu rhoi trefn i'r dosbarth ond bydd rhaid gofyn cwestiynau sy'n addas at ddisgyblion MAT er mwyn osgoi diflasu. Cytunwyd cenhedlaeth addysg Cymru (2017) gan fod yna disgwyliad ar athrawon i ddarparu amgylchfa sy'n addas at ddysgu er mwyn hybu dysgu. Yn ogystal mae'r cam yma yn cael ei chysylltu gydag un o'r pedwar diben Donaldson (2015) ble mae disgyblion hyderus yn cael ei chreu drwy gael amgylchedd ble mae pawb yn parchu at ei gilydd a dim yn colli hyder o achos disgyblion yn torri ar draws fel yn yr achos critigol.

Mae adfywio'n gritigol yn chwarae rôl enfawr o fewn y proffesiwn dysgu. Mae yna fodelau i ddefnyddio er mwyn adfywio fel model BWA a model 'pedwar lens' gan Brookfield (1998). Mae'r modelau yn chwarae rôl enfawr yn datblygu sgiliau ac addysgeg a hefyd dysgu am y disgyblion maent yn ei ddysgu fel dadansoddi os mae rhai disgyblion angen adnoddau ychwanegol (Mathew et al, 2017). Mae Brookfield (1998) yn defnyddio model pedwar 'lens' er mwyn adfywio sef: edrych trwy ein llygaid ni, llygaid y dysgwyr, llygaid ein cyd-weithwyr a trwy lenyddiaeth ymchwil. Mae hyn cael ei defnyddio gan fod neb yn edrych

ar yr un peth yn yr un ffordd a hefyd mae'r model yn gadael i ni edrych ar y digwyddiad o wahanol onglau. Mae'r model BWA yn cael ei defnyddio mewn modd dadansoddi digwyddiad fel achos critigol. Wrth ddefnyddio'r modelau hyn ac yn adfywio ar ddigwyddiadau maent yn datblygu fy natblygiad proffesiynol trwy ddatblygu syniadau am gamau nesaf a deall beth roeddwn i wedi gwneud yn dda neu'n wael.

Rhan 4: Casgliad

I gyflawni'r aseiniad yma roeddwn i wedi arsylwi gwersi mewn ysgol eilaidd er mwyn darganfod achos critigol a'i gwerthuso. Defnyddiais strategaeth arsylwi'n di-gyfranogwr er mwyn osgoi ymharu ar y wers a strategaeth ymchwil anstrwythuredig er mwyn edrych ar bob digwyddiad yn y wers. Mae'r achos critigol a arsylwais (Atodiad A) o fewn gwers Daearyddiaeth i flwyddyn 8 ac yn gysylltiedig â chwestiynu ac ymddygiad. Roedd yr athrawes wedi newid i strategaeth cwestiynu ar hap er mwyn i bawb cyfrannu ac oherwydd diffyg disgyblaeth rhai disgyblion MAT a oedd eisiau ateb pob cwestiwn. Roedd y disgyblion yma'n rhwystredig pan roedd cwestiynau yn cael ei gofyn i ddisgyblion eraill a dal i gwaethu allan mewn diflasrwydd. Wrth werthuso'r digwyddiad drwy ddefnyddio model BWA roeddwn i wedi darganfod camau nesaf a fyddwn i yn defnyddio os byddwn i yn y sefyllfa yna. Yn gyntaf byddwn i yn gosod rheolau pendant cyn dechrau'r wers er mwyn gosod trefn a disgywiliadau mewn modd i bawb cyfrannu a chael ei pharchu. Yn ail byddwn yn defnyddio strategaeth cwestiynu ar hap a chwestiynu unigolion er mwyn cadw cynhwysedd a chwrdd ag anghenion disgyblion MAT. Yn olaf byddwn i yn camol atebion pob disgybl ac i roi rhybuddion i'r disgyblion sy'n dangos diffyg parch.

Rôl o safonau proffesiynol yw codi safonau o addysgu a gwella canlyniadau yng Nghymru (Canllaw safonau proffesiynol Cymru, 2011). Mae'n hefyd yn helpu athrawon i ddarganfod ble mae rhaid datblygu er mwyn symud ymlaen yn ei gyrfa. Mae'r dull a defnyddiwyd yn ceisio datblygu disgyblion newydd mae'r pedwar diben Donaldson (2015) yn ceisio creu. Yn ogystal mae'r achos critigol yma yn helpu cyrraedd rhan fwyaf o'r safonau er enghraifft: deall anghenion disgyblion ac dysgu'n penodol iddyn nhw, gwybod amryw o ddulliau i reoli ymddygiad a hybu amgylchedd dysgu da a hyder. I gasglu, mae'r aseiniad yma wedi helpu fi fel athro i adfyfrio ar ddigwyddiadau mewn gwersi a gallai digwydd i mi. Rwy'n nawr yn gallu gwerthfawrogi datblygiad dysgu drwy adfyfrio er mwyn gwella gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Rwy'n hefyd yn gallu gweld pwysigrwydd datblygu'r cirricilwm a'r pedwar diben Donaldson (2015) er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc.

Nifer o eiriau = 4061

Cyfeiriadau

- Arthur, J., Waring, M., Coe, R. and Hedges, L. (2012). *Research methods and methodologies in education*. London: SAGE.
- BERA. (2018). *Ethical guidelines for educational research*. Fourth edition. London: British educational research association.
- Bloom, B. S. (1956). *Taxonomy of educational objectives: The classification of educational goals. Handbook 1-Cognitive domain*. New York: McKay.
- Bond, N. (2007). *Questioning strategies that minimize classroom management problems*. Kappa Delta Pi Record, Volume 44 (Issue 1), P18-21.
- Brookfield, S. (1998). *Critically reflective practice*. The journal of continuing education in the health professions, Volume 18, P197-205.
- Canllaw safonau proffesiynol Cymru. (2011). Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/29/2f/54/b1/f4a84a58a939ae2cb2d403e9/professional-standards-for-education-practitioners-in-wales.pdf> [Darllenwyd: 17 Hydref, 2019].
- Caram, C. A. and Davis, P. B. (2005). *Inviting student engagement with questioning*. Kappa Delta Pi Record, Volume 42 (Issue 1), P19-23.
- Cenhadaeth Addysg Cymru. (2017). *Education in Wales: our National Mission*: Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf> [Darllenwyd: 15 Hydref 2019].
- Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2013). *Research Methods in Education*. London: Routledge, P551.
- Cyngor West Sussex. (2019). *Effective practice: Observation, Assessment and planning*. Ar gael yn: https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf [Darllenwyd: 26 Hydref 2019].
- Dains, D. (1986). *Are teachers asking the right questions?* Education, Volume 1(Issue 4), P368-374.
- Donaldson, G. (2015). *Successful futures*. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/22165/2/150225-successful-futures-en_Redacted.pdf [Darllenwyd: 15 Hydref 2019].
- Ellis, K. (1993). *Teacher questioning behaviour and student learning: what research says to teachers*. In: Convention of the Western States Communication Association. New Mexico: P1-31.
- Estyn. (2015). *Adroddiad ar Ysgol [REDACTED]*. Caerfyrddin. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6694056> [Darllenwyd: 15 Hydref 2019].
- Estyn. (2018). *Supporting more able and talented pupils. How best to challenge and nurture more able and talented pupils: Key stages 2 to 4*. Cardiff, P1-50.

- Hobart, C. and Frankel, J. (2004). *A practical guide to child observation and assessment*. Third edition. Cheltenham: Neslon Thornes Ltd, P1-175.
- Kerry, T. (2002). *Explaining and questioning*. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Kumar, R. (2014). *Research Methodology: A Step-by-Step Guide for Beginners*. 4th Edition, London: SAGE Publications Ltd, P155-174.
- Kyriacou, C. (2007). *Essential teaching skills*. Third edition. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Lishman, J. (2015). *Handbook for Practice Learning in Social Work and Social Care: Knowledge and Theory*. Third edition. London: Jessica Kingsley Publishers, P440-442.
